**COFNODION CYFARFOD MISOL CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR.**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU 20.10.2022 @7.00p**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID.**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod.

2. **YN BRESENNOL**
Cyngh. Roland Bago (RB); Cyngh. Ieuan Davies (ID); Cyngh. Alun Price Jones(APJ) ; Cyngh. Angharad Jones (AJ); Cyngh. Non Jones (NJ); Cyngh. Richard Jones(RJ) ; Cyngh. Mel Briant (MB); Cyngh Gareth Owen (GO); Cyngh Elgan Williams (EW).
Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies (ILD).
Eleri Thomas (Clerc) (ET).

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cyngh.Doug Rowbotham a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Diweddarodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu aelodau am ddigwyddiadau o fewn yr ardal.
   - Ymddygiad Gwrthgymdeithasol: 0.
   - Byrgleriaeth : 0
   - Difrod Troseddol: 0
   - Dwyn : 0
   - Trais/ Ymosodiad: 0
   - Galwadau Twyll/ Sgam:- yn debyg i rai cynt.

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
Dim wedi'i ddatgan.

6. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 22ain MEDI 2022**
**CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Richard Jones), **EILIWYD** (Y Cyngh. Elgan Williams ) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod yr 22ain o Fedi 2022, yn gywir ac f'eu harwyddwyd gan y Cadeirydd.

7. **MATERION YN CODI**
**7.1 DYDD SUL Y COFIO 2022:**
**GO i ofyn i John Jenkins** tybed a fyddai'n barod i ymwneud â rôl biwglwr, unwaith eto eleni.
**GO** i archebu'r blethdorch.
**i ofyn i Mr Charles Arch** tybed a fyddai'n barod i osod y blethdorch.
**Darllen y Gair yn Gymraeg;** Cynghorydd a Chadlywydd y gorffennol John Jones.
**Darllen y Gair yn Saesneg:** Cadeirydd Cyngor Sir Cerediigon Ifan Davies a gosod y blethdorch ar ran Cyngor Sir Ceredigon.
**Gweddiau:** Parch Aled Lewis a Pharch Elizabeth.
**Darllen enwau rhai** fu farw: RJ & NJ
**Anogaeth**: DR & GO
**Hysbysu'r cyhoedd** o'r digwyddiad: Clerc; ID
**Disgyblion yr Ysgol Sul** i gymryd rhan: d/l Mrs Neli Jones.

**7.2** **AROLWG ROSPA Ardal Chwarae Pantyfedwen 2022:** Bydd y Cyngh. Gareth Owen yn ymwneud â gwelliannau i'r parc yn ystod y penwythnos 22-23 Hydref 2022. Hefyd i arddangos y poster Pentir Pumlumon yn y cyffiniau.

**7.3** **Diffibriliwr o fewn y Pentref:** Gohebiaeth oddi wrth Pauline Bett, Ymatebwr Cyntaf Cymunedol WAST yn sôn ei bod wedi cysylltu â Clare Hughes a Ceredig, Siop Bentref y Bont sydd wedi cytuno i ymwneud â'r swydd o Warchediaeth Diffibriliwr y Pentref ar gyfer Neuadd Pantyfedwen a'r Siop.

**Cytunwyd i brynu diffibriliwr ar gyfer Ffair Rhos, mewn cyfarfod cynt.** Mae'r ddwy landledi Teifi Inn wedi caniatau lleoli'r diffibriliwr ger y Teifi Inn. Y mae'r clerc wedi archebu:
Diffibrilwr Calan Hearts
**Diffibriliwr Mindray C1A , £1045.00** ond wrth ystyried y cyfraniad o £200, y cyfraniad isafwm ar gyfer y diffibriliwr yn unig oedd £845.00 + £8 Post & Chludiant. Mae siec wedi'i gyflwyno iddynt.

**Gohebiaeth gan Gwenllian Beynon (GB)** ar ran Marchnad Nadolig Bont parthed diffibriliwr a brynwyd ar gyfer Ystrad Fflur sawl blwyddyn yn ôl (Nod Marchnad Nadolig Bont oedd cyfrannu elw'r Farchnad i elusennau ac yn ystod yr adeg cyn COVID roedd trefnwyr o'r farn bod lleoli diffibriliwr yn Ystrad Fflur yn flaenoriaeth oherwydd prysurdeb yr ardal). Cyn belled, nid yw'r diffibriliwr wedi'i osod mewn lle ac wedi ei storio yn siop fach Ystrad Fflur ers bron i 3 blynedd. Cysylltodd y trefnwyr â Cadw; mae'r sefyllfa yn siop fach Ystrad Fflur wedi newid erbyn hyn. Nodwyd bod y diffibriliwr wedi ei brynu heb y bocs. Roedd CADW yn barod i gyfrannu bocs.
**Roedd 2 opsiwn bellach yn codi:**
**1. Bod y diffibriliwr yn ei ddychwelyd i feddiant Marchnad Nadolig Y Bont**
**2. Cadw yn gosod y diffibriliwr yn ei le ond nid yn ei gynnal (mae'r opsiwn eto i'w drafod â'r partïon perthnasol)**
Gofynnodd GB am gyngor y Cyngor Cymuned. Gan nad oedd Marchnad Nadolig Bont yn Sefydliad cofrestredig, gallai problemau godi pe bai'r diffibriliwr yn dychwelyd i'w gofal.
Gofynnwyd tybed a allai'r Cyngor Cymuned drafod y sefyllfa ac o bosib cymryd cyfrifoldeb am y diffibriliwr. Roedd lleoli diffibriliwr yn Ystrad Fflur yn hollbwysig wrth ystyried y nifer o bobl sy'n ymweld â'r safle.
Cytunwyd i gymryd cyfrifoldeb am y diffibriliwr. Bydd y Cynghorydd Ifan Davies yn trafod ymhellach gydag unigolion ynghlwm ag Ystrad Fflur i sefydlu'r ffordd ymlaen.
Nododd y Cyng Ieuan Davies fod y Gwasanaeth Iechyd Genedlaethol (GIG) yn darparu hyfforddiant diffibriliwr am ddim. Cytunwyd i ymchwilio ymhellach ac i gynnig cyfle i'r cyhoedd fynychu'r sesiynau hyfforddi.

**7.4** **Llifogydd Afon Teifi yng nghyffiniau'r Llew Coch**: Penderfynwyd trefnu cyfarfod safle ar gyfer Dydd Gwener 11eg o Dachwedd 2022 am 11am gyda chynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Cyngh. Ifan Lloyd Davies, Roland Bago a Richard Jones i fynychu'r cyfarfod.

**7.5** **Glan-yr-Afon: Roedd canclwm Japan yn broblem yn yr ardal hon.** Cytunwyd i ddarganfod a fyddai cyllid grant yn talu'r gost o drin y Canclwm Japan. (Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol - Bydd cynllun grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar agor unwaith eto ar gyfer ceisiadau o ddydd Iau 9 Mehefin 2022 ymlaen. Mae £920k ar gael i'w ddyrannu tan fis Mawrth 2023. Ewch i www.heritagefund.org.uk/funding am ragor o fanylion - rcarter@onevoicewales.wales Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 2) / National Lottery Heritage Fund)

Cytunwyd i ddirprwyaeth y Cyngor Cymuned gyfarfod i drafod arian grant ar gyfer prosiectau penodol.

**7.6** **Un Llais Cymru: Cyfarfod**: Hydref 2022: Cofnodion ynghlwm.

**7.7** **Cyfleusterau Cyhoeddus:** holodd gohebiaeth cynt gan Mrs Mair Jones tybed a fyddai modd gosod Cyfleusterau Cyhoeddus yn y Pentref. Eglurwyd bod grant o £500 wedi'i glustnodi gan Gyngor Sir Ceredigion yn y gorffennol. Cytunwyd i ymchwilio ymhellach a gofyn i'r Llew Coch a'r Capel os oedd diddordeb ganddynt i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus pe bai grant ar gynnig. *Disgwylir ateb gan Gyngor Sir Ceredigion.*

**7.8** **Tocio Coed ar Ystâd Maesydderwen: Adroddwyd mai Cyngor Sir Ceredigion oedd yn gyfrifol am rai coed tra bod eraill yn gyfrifoldeb Barcud.**
Gerllaw Nos 6 a 7:CS Ceredigion; Rhif 17- 10 Stryd y Dderwen: CS Ceredigion.
Gerllaw Rhif 9: Barcud; 19/20 Y Barcud
i ganfod pwy sy'n gyfrifol am goed ger 22/23

**7.9** **Pwyllgor Neuadd:** gofynnwyd am y dyddiad pan fyddai'r Goeden/Coed Nadolig yn cael ei goleuo. Pwyllgor y Coed Nadolig i drefnu cyfarfod ar gyfer yr wythnos ganlynol.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Newidiadau arfaethedig i derfynau cyflymder**
Mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu gwneud nifer o newidiadau i derfynau cyflymder yng Ngheredigion fel rhan o'r newid i derfynau cyflymder Cenedlaethol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru yn 2023. Bydd y terfynau cyflymder 30mya presennol yn gostwng i 20mya er y bydd rhai ffyrdd yn bodloni'r meini prawf i aros yn rhai a adwaenir yn derfynau 30mya eithriadol. Noder bod y terfynau 40mya a 50mya presennol, felly, y tu allan i gwmpas y cynllun hwn.
Gan nad oes statws ffyrdd cyfyngedig gan unrhyw ffordd ar y rhwydwaith sirol, rhaid cyflwyno pob newid drwy Orchymyn Rheoleiddio Traffig a osodir gan y Cyngor. Ceir manylion y newidiadau arfaethedig ar gyfer ward y Cyngor Cymuned ar y mapiau a atodwyd. Noder mai cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw'r terfynau cyflymder ar gefnffyrdd yr A44 a'r A487 ac felly nid ydynt wedi'u cynnwys ar y mapiau. Fodd bynnag, lle bo'n briodol, mae'r cynigion ar gyfer y ffyrdd sirol wedi'u datblygu mewn cysylltiad â Swyddogion Cefnffyrdd er mwyn iddynt gydgysylltu â'r hyn a fydd, fel y deallir, yn drefniadau terfynau cyflymder newydd ar y cefnffyrdd hyn.
Bydd y Cyngor Sir yn ddiolchgar o dderbyn sylwadau ysgrifenedig ar y cynigion hyn erbyn 10/11/2022 man pellaf. Os na fydd y Cyngor Sir wedi clywed wrth y Cyngor Cymuned erbyn y dyddiad hwn, cymerir yn ganiataol nad oes ganddynt wrthwynebiad i unrhyw ran o'r hyn sy'n cael ei gynnig ar gyfer ward y Cyngor Cymuned.

**8.2** **Mae Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth**

**Ariannol Chwefror 2023 wedi'i gyhoeddi. Mae yna**

**gwestiynau ymgynghori ac mae'r Panel yn gwahodd ymatebion**

**erbyn 1 Rhagfyr 2022.**

Yn unol â gofynion Adran 147 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011,
yn amgaeedig:

- Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, Chwefror 2023.

- Adroddiad Blynyddol Drafft – cwestiynau ymgynghori

Anfonwyd hwn hefyd at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a phartïon eraill a chanddynt fuddiant.
Mae'r adroddiad ar gael drwy'r ddolen a ganlyn:

Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2023

**8.3** **Cyngor Sir Ceredigion:** Yn dilyn cyfarfod o Bwyllgor Moeseg a Safonau yn ddiweddar, cytunwyd i anfon yr adroddiad Canfyddiadau
Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus er gwybodaeth at bob Clerc Cyngor Tref a Chymuned.

**8.4** **DIGWYDDIAD AR Y CYD UN LLAIS CYMRU/SLCC –**
**Dydd Mercher 9 TACHWEDD 2022 – LLEOEDD AR GAEL O HYD**

Mae Un Llais Cymru a Chymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) yn trefnu digwyddiad ar y cyd a gynhelir trwy gyswllt o bell ar 9 Tachwedd 2022.

Rhaid archebu lleoedd trwy ddefnyddio'r we-ddolen ganlynol:
https://www.slcc.co.uk/event/ovw/

Mae'r digwyddiad yn un arbennig o bwysig i gynghorau gan ei fod yn edrych ar feysydd allweddol megis newid hinsawdd, diweddaru eich cyngor yn ddigidol, bioamrywiaeth a dyletswydd Adran 6, y pecyn cyllid a llywodraethiant newydd, cynlluniau bro a phwysigrwydd hyfforddiant a datblygu. Croesawir Julie James AS i'r digwyddiad yn rhinwedd ei swydd yn Weinidog Newid Hinsawdd. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y materion hyn, ac mae'r digwyddiad yn cynnig cyfle hollbwysig i gynghorau gael gwybod y diweddaraf am faterion y dydd a chyfleoedd sydd ar gael i'n sector ar hyn o bryd.
Cost y digwyddiad yw £45 a TAW.

**8.5** **Mae troseddwyr yn defnyddio'r**
**Gymraeg i geisio'ch twyllo hefyd**

Mae pobl yn credu bod troseddwyr ond yn defnyddio Saesneg i geisio twyllo eraill.

Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi derbyn adroddiadau am e-byst a galwadau ffôn yn

Gymraeg gan droseddwyr sy'n ceisio cael arian gan

bobl drwy dwyll neu eu cael nhw i dalu am wasanaethau.

**Cofiwch:**

Ni i fydd yr heddlu, neu eich banc, byth yn gofyn ichi dynnu arian neu ei drosglwyddo i gyfrif gwahanol.

Ni fydd yr heddlu, neu eich banc, byth yn gofyn ichi ddatgelu eich cyfrinair bancio

llawn neu eich rhif PIN.

Peidiwch â chlicio ar ddolenni neu agor atodiadau mewn e-byst neu negeseuon testun annisgwyl neu amheus.

Os bydd ffenestr naid yn ymddangos ar sgrin eich cyfrifiadur yn dweud wrthych fod angen ichi gysylltu â chwmni Microsoft, diffoddwch y peiriant ac arhoswch rai munudau cyn troi'r peiriant yn ôl ymlaen. Mae hynny fel arfer yn rhoi stop ar y ffenestri naid.

Adroddwch am e-byst amheus drwy anfon e-bost at: report@phishing.gov.uk

Medrwch adrodd am negeseuon testun amheus drwy anfon y neges wreiddiol at 7726 (sy'n sillafu 'SPAM' ar eich bysellfwrdd).

**8.6 Dychweliad y Pererin: Dathliad**

Gwahoddiad gwresog i aelodau i fynychu dathliad yn Ystrad Fflur Dydd Sadwrn 29 Hydref 2022 i nodi cwblhau'r cerflun a elwir yn 'Pilgrim'. Crëwyd y bererindod gan y cerflunydd Glenn Morris a'i hariannu ar y cyd gan ariannu torfol cymunedol a rhodd hael gan Gronfa Henebion y Byd, mae'r Pererin unwaith eto yn rhan eiconig o dirwedd Ystrad Fflur. Mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal ar y cyd gan aelodau Grŵp Cyswllt Cymunedol ac Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur. Bydd y digwyddiad ar agor i'r cyhoedd ond gwerthfawrogir presenoldeb cynghorwyr yn fawr oherwydd eu cefnogaeth yn y prosiect i atgyfodi'r Pererin. Bydd Cynghorwyr yn mynychu'r digwyddiad.

**8.7 Llythyr oddi wrth Ben Lake AS:** yn darparu cyngor parthed yr argyfwng costau

byw. ID i gyflwyno'r wybodaeth ar Facebook y Cyngor

Cymuned.

**8.8. Gohebiaeth Pellach: er gwybodaeth.**

**9. CYNLLUNIO: Dim materion i'w trafod.**

**10. CYLLID**

- **10.1 Derbynneb: Praesept mewn rhan: Cyngor Sir Cerediigon**; £2,404.33
- **10.2 Cenin Pedr ar gyfer y Pentref:** d/l y Cyngh. Alun Price Jones £29.98
- **10.3 Cynnal Safle ar y We'r** Cyngor Cymuned: £36
- **10.4 Llofnodi Sieciau: rhai ag awdurdod ar hyn o bryd:** 2/3 Clare Hughes, Non Jones, Doug Rowbotham. Unrhyw newidiadau i Gyfrif Banc Barclays yn gyfyngedig i lofnodwyr awdurdodedig, ee ychwanegu llofnodwyr newydd, trosglwyddo i fancio ar-lein.
- **10.5 Cyflog y clerc: Medi** 2022 £193.83.
- **10.6 Costau'r Clerc** £43.57

**11. UNRHYW FATER ARALL**

- **11.1 Cytunwyd i dynnu'r bynting i ffwrdd o gwmpas y pentref i gynnwys yr** arwyddion (gofyn i'r Ysgol), a'r baneri yn ystod y dyfodol agos.
- **11.2 Adroddodd y Cyngh. Richard Jones** bod Clwb Pêl Droed y Bont yn cynnal noson codi arain ar Ddydd Sadwrn 12fed o Dachwed am 7pm.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Misol Nos Iau 17eg Tachwedd 2022 am 7pm.**

============================================= (Arwyddwyd/ Dyddiad)